

# Diwrnod yn fy mywyd

Cynhadledd Flynyddol 2024 Anabledd Dysgu Cymru



Learning Disability Wales

Anabledd Dysgu Cymru

# Arddangos





Dydy ein cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru ddim fel cynadleddau eraill. Mae'n sefyll allan fel enghraifft o gynhwysiant a hygyrchedd. Rydyn ni yn ymdrechu i sicrhau bod ein digwyddiad yn gyfeillgar ac yn groesawgar i bawb, os oes gennych anabledd dysgu ai peidio.

Mae llawer o'n siaradwyr ac arweinwyr gweithdai yn arbenigwyr trwy eu profiadau eu hunain o gael anabledd dysgu, rydyn ni yn credu bod pawb yn elwa o weithredu fel hyn.

Bob blwyddyn mae'r gynhadledd yn dod â phobl ag anabledd dysgu a gweithwyr proffesiynol ynghyd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn awdurdodau lleol, darparwyr cymorth, sefydliadau gwirfoddol, a chomisiynwyr.

Bydd Diwrnod yn fy Mywyd yn edrych ar yr hyn y mae pobl ag anabledd dysgu yn ei wneud gyda'u hamser, faint o ddewis sydd gan bobl, pa mor foddhaus ydyw, a beth mae pobl yn ei wneud i greu Cymru sydd yn lle gwell i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio ynddi. **Gallwch fod yn rhan o'r digwyddiad unigryw hwn.**

# Sut gallwch chi elwa



Mae cefnogi ein cynhadledd drwy arddangos yn rhoi cyfle i chi gyrraedd a dylanwadu ar bobl a sefydliadau yn y gymuned anableded dysgu yng Nghymru, gall hefyd eich helpu i:

- Cynyddu gwelededd eich sefydliad
- Targedu sefydliadau yn y maes hwn mewn ffordd gost-effeithiol
- Dod o hyd i gleientiaid, partneriaid, a chwsmeriaid newydd
- Cynyddu eich cyfran o'r farchnad di-elw
- Meithrin perthynas â mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol
- Dangos eich ymrwymiad i sector di-elw cryf

# Costau Arddangos



£360 + TAW y dydd – Safonol

£260 + TAW y dydd – Consesiwn

Fel arddangoswr yn y digwyddiad, fe gewch:

- Gofod arddangos mewn prif leoliad
- 2 le i staff yn eich stondin arddangosfa sy'n gallu mynychu'r gynhadledd fel cynrychiolwyr llawn neu'r cyfle i roi'r lleoedd i eraill
- Eich logo a manylion sefydliad i ymddangos o fewn llawlyfr y Gynhadledd
- Cyfle i arddangos eich baner dros dro yn y dderbynfa ddigwyddiadau
- Tabl 6 troedfedd wedi'i ddarparu
- WiFi a chyflenwad trydan ar gael
- Cinio a lluniaeth yn gynwysiedig

Bydd y cynrychiolwyr yn gallu ymweld â'ch stondin yn ystod y cyfnod cofrestru, egwyl yn y bore a'r prynhawn yn ogystal â thros ginio. Byddwn yn sicrhau bod pawb yn gwybod cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gydnabod eich sefydliad fel arddangoswr mewn unrhyw sylw yn y wasg a gan gadeirydd y digwyddiad yn ystod y digwyddiad.

Gallwch fod yn sicr ein bod yn gallu cynnig y prisiau isaf posibl i bobl sydd ag anabledd dysgu fynychu'r gynhadledd hon trwy arddangos.

# Cysylltu â ni

I drefnu eich hysbysebion, cysylltwch â Lucy O'Leary ar:

Ffôn: 029 2068 1163

Ebost: [lucy.oleary@ldw.org.uk](mailto:lucy.oleary@ldw.org.uk)

Anabledd Dysgu Cymru

41 Cilgant Lambourne

Parc Busnes Caerdydd

Llanisien

Caerdydd

CF14 5GG

[www.ldw.org.uk](http://www.ldw.org.uk)

